north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 26 MAWRTH, 2021

**TEITL:** *Strategaeth Ynni Gogledd Cymru Ddrafft*

**AWDURON:** *Henry Aron (Rheolwr Rhaglen Ynni)*
*Rhys Horan (Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru)*

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cyflwyno Strategaeth Ynni Gogledd Cymru ar ffurf drafft i'w chadarnhau, ennyn cefnogaeth ar gyfer y camau nesaf arfaethedig, ac arddangos ei bod yn cyd-fynd â'r ymrwymiad rhanbarthol i her newid hinsawdd.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cadarnhau Strategaeth Ynni Gogledd Cymru ar ffurf drafft, ac yn cadarnhau ei gefnogaeth i ddechrau ar y gwaith paratoadol ar gyfer y cynllun gweithredu.

2.2. Bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cytuno i dderbyn adroddiad pellach ar y cynllun gweithredu drafft.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r strategaeth bresennol yn darparu gweledigaeth lefel-uchel, meysydd blaenoriaeth, gwaith modelu ynni ynghyd â dadansoddiad economaidd fydd yn cyfrannu at ddatblygiad y cynllun gweithredu arfaethedig.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES), Awdurdodau Lleol, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru (LlC) a phartneriaid wedi cydweithio i baratoi drafft gyfredol Strategaeth Ynni Gogledd Cymru.

4.2. Paratowyd strategaethau ynni ar gyfer y pedwar rhanbarth yng Nghymru, ac maent yn bodoli eisoes mewn nifer o ranbarthau yn Lloegr.

4.3. Mae Bwrdd Rhaglen Ynni Carbon Isel y Bwrdd Uchelgais (Is-Grŵp Ynni'r Bwrdd Uchelgais yn flaenorol) wedi cyfrannu at ddatblygiad y strategaeth o'r cychwyn, ac mae wedi adolygu'r drafft diweddaraf.

4.4. Mae'r strategaeth ynni ddrafft (y cyfeirir ati yma fel 'y strategaeth') wedi'i rhannu eisoes gyda Grŵp Swyddogion Gweithredol y Bwrdd Uchelgais ar 12 Chwefror, 2021 a derbyniodd gefnogaeth eang. Yn ogystal, rhannwyd y strategaeth gyda'r Fforwm Prif Weithredwyr Rhanbarthol ar 26 Chwefror, 2021 ac fe'i chyflwynir yn awr i'r Bwrdd Uchelgais i'w chadarnhau.

4.5. Amcan cyffredinol y strategaeth hon yw amlinellu llwybr posib ar gyfer datgarboneiddio'r system ynni, tra'n sicrhau bod y rhanbarth yn manteisio i'r eithaf ar y buddion economaidd wrth drawsnewid i economi carbon isel.

4.6. Mae'r trawsnewid hwn yn cynnig camau adferol economaidd sylweddol ynghyd â chyfleoedd am dwf (gweler ***atodiad 1***). Hyd yn oed cyn Covid-19, yr oedd Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r economi carbon isel dyfu bedair gwaith yn gynt na gweddill yr economi. Ar ôl cyhoeddiad diweddar Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar Ynni a'r Cynllun Deg Pwynt ar gyfer Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd, mae'r cyfleoedd posib ar gyfer yr economi wedi cynyddu hyd yn oed yn fwy.

4.7. Mae'r strategaeth (gweler ***atodiad 2***) yn amlinellu achos strategol cadarn am system ynni blaengar yng Ngogledd Cymru, ac mae'n cyd-fynd â Phrosiect Ynni Lleol Blaengar y Cynllun Twf a'r Rhaglen Ynni Carbon Isel ehangach, fydd yn gyfrwng allweddol i weithredu'r strategaeth yn y lle cyntaf. Mae'r strategaeth hefyd yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol datblygol.

4.8. Bydd cael gafael ar y buddsoddiad angenrheidiol i weithredu'r weledigaeth arfaethedig yn her sylweddol, a bydd y cam nesaf o ddatblygu cynllun gweithredu yn cychwyn y broses o adnabod yr ymyraethau rhanbarthol a'r anghenion sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth.

4.9. Mae rhanbarthau eraill wedi defnyddio eu strategaeth i gyflwyno achos dros fuddsoddiad pellach yn eu rhanbarthau (e.e. mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cadarnhau ei Strategaeth Ynni ac wedi defnyddio'r strategaeth fel sail ar gyfer prosbectws 'levelling up' i Lywodraeth y DU).

4.10. Mae’n amlwg bod gyrwyr economaidd yn llywio gweithgaredd yn y system ynni, ond mae newid hinsawdd hefyd yn yrrwr arwyddocaol yn yr angen i gyflwyno system ynni ar gyfer y dyfodol. Amcangyfrifir bod y system ynni yng Ngogledd Cymru (sef yr ynni sy'n cael ei greu a'i ddefnyddio gan y sector ynni) yn gyfrifol am oddeutu 70% o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr. Felly, byddai cyflawni'r weledigaeth ynni yn gyfraniad sylweddol tuag at fynd i'r afael â newid hinsawdd.

4.11. Bydd y strategaeth yn ategu ac yn cefnogi gwaith sydd eisoes ar y gweill yn yr holl awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus i ddatgarboneiddio eu hallyriadau sefydliadol (mewnol). Bydd y strategaeth yn cynorthwyo i gael mynediad at ffynonellau cyllid er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn.

4.12. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar bum egwyddor craidd, sy'n cyd-fynd ag amcanion rhaglen carbon isel y Bwrdd Uchelgais:

- dod yn arweinydd ym maes cynhyrchu ynni carbon isel
- cydweithio
- cynnal golwg aml-fector systemau cyfan
- croesawu economi sero carbon net
- addasu ar gyfer y dyfodol ac arloesedd

4.13. Mae gan y strategaeth bum pennod, Gweledigaeth; Blaenoriaethau; System ynni, defnydd ynni ac allyriadau; Dyfodol ynni a'r economi; Camau nesaf.

**GWELEDIGAETH**

4.14. Mae pennod 1 yn nodi'r weledigaeth sydd wedi'i pharatoi yn dilyn cyfraniadau gan nifer o randdeiliaid dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r weledigaeth yn datgan:

‘Cyflawni'r buddion economaidd, cymdeithasol, ecolegol a llesiant lleol mwyaf wrth drosglwyddo i economi net sero, a bod yn allforiwr net o drydan carbon isel drwy gydweithrediad rhanbarthol ac ar draws ffiniau'.

**BLAENORIAETHAU**

4.15. Mae pennod 2 yn disgrifio pedair blaenoriaeth sydd wedi eu creu yn dilyn gweithdai, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adolygu'r dogfennau polisi allweddol. Y blaenoriaethau a adnabuwyd oedd:

- Harneisio'r doreth o adnoddau carbon isel lleol er mwyn bod yn bwerdy gwyrdd ac arallgyfeirio'r cymysgedd ynni
- Bod yn arweinydd byd-eang mewn technoleg ynni gwynt ar y môr a morol
- Gwella effeithiolrwydd ynni tai'r rhanbarth a chyflymu'r gwaith o ddatgarboneiddio stoc adeiladau gogledd Cymru
- Cyflawni symudiad at drafnidiaeth carbon isel

**SYSTEM YNNI, DEFNYDD YNNI AC ALLYRIADAU**

4.16. Mae pennod 3 yn nodi data a gwybodaeth gefndirol defnyddiol am y system ynni bresennol.

4.17. Mae Gogledd Cymru eisoes yn cynhyrchu cyfwerth ag 82% o'i ddefnydd o drydan o ffynonellau adnewyddadwy lleol.

4.18. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth ynni a'r targedau i fod yn sero net erbyn 2050, mae angen i Ogledd Cymru leihau'r allyriadau sy'n deillio o drafnidiaeth ffordd, masnach a diwydiant, ynghyd â gwresogi ac ynni domestig o 55% erbyn 2035 (o gymharu â'r lleihad 'busnes fel arfer' o 22%).

4.19. Mae'r bennod hon yn tynnu sylw at yr her sylweddol sy'n wynebu'r rhanbarth i gyflawni'r lleihad, ac mae'n amlinellu un senario posib ar gyfer Gweledigaeth System Ynni, e.e. 67,000 o gartrefi i symud o ddefnyddio dulliau gwresogi tanwydd ffosil, 260,000 o geir trydan, 2.8GW o wynt alltraeth, 310MW o wynt ar y tir, 1GW morlyn llanw ac ati (DS mae nifer o sefyllfaoedd allai gyflawni'r weledigaeth).

4.20. Bydd sawl senario gwahanol yn dod i'r amlwg wrth i'r technolegau ddatblygu, a phan ddaw mwy o eglurder ar y polisïau a'r trefniadau ariannu.

**EFFAITH ECONOMAIDD**

4.21. Mae pennod 4 yn manylu ar yr effeithiau economaidd a ddaw yn sgil gwireddu'r weledigaeth system ynni. Mae'r rhain wedi'u hasesu o ran creu swyddi, gwerth ychwanegol crynswth (GVA) a’r buddsoddiad (gwariant) sydd ei angen ar gyfer y trawsnewid ynni, o'i gymharu â'r senario 'busnes fel arfer'.

4.22. Mae'r dadansoddiad economaidd yn dangos bod angen buddsoddiad o oddeutu £15 biliwn er mwyn cyflawni'r weledigaeth system ynni erbyn 2035. Disgwylir i'r buddsoddiad ddod o ffynonellau niferus, gan gynnwys y sectorau preifat a chyhoeddus.

4.23. Mewn perthynas â swyddi, amcangyfrifir y byddai angen 24,000 net o swyddi ychwanegol ar gyfer senario'r weledigaeth system ynni, er mwyn cyflymu'r broses o weithredu'r technolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a'r gwelliannau cysylltiedig mewn effeithlonrwydd ynni. Mae'r swyddi hyn yn gysylltiedig â chynnydd o oddeutu £2.4 biliwn mewn GVA (wedi'i ddisgowntio o 3.5% dros y cyfnod 2020-2035).

**CAMAU ARFAETHEDIG NESAF**

4.24. Mae Pennod 5 o'r strategaeth yn cynnig y camau nesaf, sef:

- Datblygu Cynllun Gweithredu – gyda chefnogaeth gan WGES, bydd y cynllun gweithredu yn trawsnewid yr her i ymyraethau y gellir eu gwireddu, wedi'i arwain gan grŵp llywio neu grŵp tasg a gorffen traws-sector. Bydd y broses yn caniatáu i'r rhanbarth adnabod y meysydd lle mae gwir botensial am ymyraethau ar y cyd, a'r meysydd lle bydd angen i eraill arwain, e.e. Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Ofgem, SPEN, Trafnidiaeth Cymru ac ati. Bydd rhai meysydd lle bydd y rhanbarth yn unig yn dymuno dylanwadu arnynt a/neu fonitro.
- Llywodraethu - y Bwrdd Uchelgais, LlC a WGES i gytuno ar lywodraethu cymesurol ar gyfer y strategaeth i sicrhau bod trefniadau adrodd a monitro effeithiol wedi'u sefydlu ar gyfer y dyfodol, ynghyd â'r gallu i gydlynu. Ym mwyafrif rhanbarthau Lloegr, mae'r Partneriaethau Menter Lleol (LEP) wedi arwain ar ddatblygu'r strategaethau ynni rhanbarthol o ganlyniad i'r cyfleoedd amlwg am dwf economaidd, a natur traws-sector mwyafrif yr ymyraethau tebygol.
- Strategaeth gyfathrebu ehangach – gyda chefnogaeth gan WGES, adeiladu cefnogaeth ar gyfer y strategaeth ymysg rhanddeiliaid ehangach.

4.25. Mae LlC wedi cadarnhau y bydd WGES ar gael i gefnogi'r camau nesaf arfaethedig ac yn darparu adnodd i gydlynu. Mae gwaith cychwynnol mewn rhanbarthau eraill yn amcangyfrif y bydd angen oddeutu 25 diwrnod o adnodd swyddog WGES ynghyd ag oddeutu 13 diwrnod o adnodd rhanbarthol/Bwrdd Uchelgais er mwyn datblygu drafft cychwynnol y cynllun gweithredu dros gyfnod i'w gytuno. Bydd angen ategu hyn gan gyfranogiad a chyfraniadau gan amrediad eang o randdeiliaid pwysig megis y sector preifat, SP Energy Networks, Wales and West Utilities, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Trafnidiaeth Cymru ac ati.

**CRYNODEB**

4.26. Mae Bwrdd Rhaglen Ynni Carbon Isel y Bwrdd Uchelgais wedi bod yn allweddol yn natblygiad y strategaeth, gan gynnig her gadarn ac adeiladol.

4.27. Mae Grŵp Swyddogion Gweithredol y Bwrdd Uchelgais a'r Fforwm Prif Weithredwyr Rhanbarthol wedi darparu cefnogaeth ar gyfer y camau nesaf arfaethedig.

4.28. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd yn gadarn gyda newid hinsawdd, twf economaidd a'r uchelgais adfer economaidd yn sgil Covid-19. Er bod graddfa'r her yn sylweddol, mae'r cyfleoedd economaidd i'r rhanbarth yn anferth.

4.29. Bydd y strategaeth yn ceisio cyfrannu at, a chefnogi'r cynlluniau lleol i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus (e.e. drwy helpu i ddeall a datgloi isadeiledd y grid, denu atebion arloesol a chyllid ac ati).

4.30. Bydd y cynllun gweithredu yn galluogi i'r rhanbarth ddod i ddeall ac adnabod yr amrediad o ymyraethau rhanbarthol sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth. Bydd adnoddau WGES ar gael i ddatblygu'r cynllun gweithredu.

4.31. Bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu yn fodd o gyfrannu a chefnogi ceisiadau am gyllid yn y dyfodol ar draws y meysydd blaenoriaeth i Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, UK Research and Innovation (UKRI) ac eraill (e.e. gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu). Mae'r strategaeth

eisoes wedi bod yn hynod o bwysig wrth ddarparu gwybodaeth ar lefel ranbarthol i fwydo i Achos Busnes Rhaglen Ynni Carbon Isel y Cynllun Twf.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim risgiau ariannol i'w nodi.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim goblygiadau cyfreithiol i'w nodi.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar gael i gefnogi'r camau nesaf arfaethedig a darparu capasiti cydlynu. Mae gwaith cynnar mewn rhanbarthau eraill wedi amcangyfrif bod tua 25 diwrnod o adnodd swyddogion WGES ynghyd â thua 13 diwrnod o adnodd y Bwrdd Uchelgais yn debygol o fod yn ofynnol i ddatblygu drafft cychwynnol o'r cynllun gweithredu dros gyfnod sydd i'w gytuno. Ni ddisgwylir i fewnbwn gan staff y Bwrdd Uchelgais i'r cynllun gweithredu effeithio ar gyflawni Rhaglen y Cynllun Dwf.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim effaith ar gydraddoldeb i'w nodi.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Mae'r Bwrdd Rhaglen Ynni Carbon Isel, Grŵp Gweithredol ac Fforwm Prif Weithredwyr Rhanbarthol wedi cefnogi y strategaeth cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais. Mae ystod o grwpiau o ran ddeiliaid ac sefydliadau wedi ymgysylltu yn ystod datblygiad y strategaeth.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Ffeithlun Strategaeth Ynni Gogledd Cymru |
| **Atodiad 2** | Strategaeth Ynni Rhanbarthol |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Mae'r Strategaeth yma yn ddogfen sydd yn cefnogi y Weledigaeth a'r Cytundeb Twf ac yn hwyluso eu cyflawni. Mae'n ddogfen gall y Bwrdd Uchelgais Economaidd ei chymeradwyo."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Rwy'n croesawu'r Strategaeth Ynni drafft cyflwynir yma ar ran Gogledd Cymru. Nid oes cais am gyllid newydd nac unrhyw ymrwymiad ychwanegol. Felly, disgwylir i BUEGC weithredu'r Strategaeth o fewn eu hadnoddau cyfredol."